# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Mawrth 2025

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.00 - 13.25)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.00 - 13.05) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)583 - Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.05 - 13.10)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)584 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 2 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)588 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025**

(Tudalennau 4 - 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.3 SL(6)585 - Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025**

(Tudalen 7)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 4 - Adroddiad drafft [Cymraeg i ddilyn]

LJC(6)-08-25 - Papur 5 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 11 Chwefror 2025

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.10 - 13.15)

**4.1 SL(6)568 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 8 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, 21 Chwefror 2025

LJC(6)-08-25 – Papur 7 – Llythyr at y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, 10 Chwefror 2025

**4.2 SL(6)579 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 12 - 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-08-25 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(6)582 – Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025**

(Tudalennau 15 - 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 10 – Adroddiad

LJC(6)-08-25 – Papur 11 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.15 - 13.20)

**5.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalennau 22 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 12 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Grŵp Rhyngweinidogol Busnes a Diwydiant, 17 Chwefror 2025

LJC(6)-08-25 – Papur 13 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth, 18 Chwefror 2025

LJC(6)-08-25 – Papur 14 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, 27 Chwefror 2025

LJC(6)-08-25 – Papur 15 –  Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol, 27 Chwefror 2025

## 6 Papurau i'w nodi

(13.20 – 13.25)

**6.1 Gohebiaeth at y Pwyllgor Busnes: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

(Tudalennau 27 – 28)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 16 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 17 Chwefror 2025 [Saesneg yn unig]

**6.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 7) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

(Tudalennau 29 – 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 17 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**6.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar Fil Great British Energy**

(Tudalennau 32 – 34)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 18 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**6.4 Gohebiaeth at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

(Tudalennau 35 – 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 19 – Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 14 Chwefror 2025

**6.5 Gohebiaeth rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwahoddiad i sesiwn graffu gyffredinol gweinidogol ar y cyd ynghylch cyfiawnder troseddol**

(Tudalennau 40 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 20 - Llythyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 25 Chwefror 2025 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-08-25 - Papur 21 - Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 23 Rhagfyr 2024 [Saesneg yn unig]

**6.6 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

(Tudalennau 43 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 22 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 27 Chwefror 2025

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.25)

## Cyfarfod preifat

(13.25 - 15.15)

## 8 Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Adroddiad drafft

(13.25- 13.55) (Tudalennau 48 - 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 23 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-08-25 - Papur 24 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 17 Chwefror 2025

## 9 Cytundebau Rhyngwladol: Adroddiad drafft

(13.55 - 14.05) (Tudalennau 88 - 95)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 25 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Hawliau Rhentwyr: Adroddiad drafft

(14.05 - 14.15) (Tudalennau 96 - 102)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 26 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Blaenraglen waith

(14.15 - 14.45) (Tudalennau 103 - 106)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 27 - Llythyr drafft at Brif Weinidog Cymru [Saesneg yn unig]

LJC(6)-08-25 - Papur 28 - Llythyr drafft at Ysgrifennydd Gwladol Cymru [Saesneg yn unig]

LJC(6)-08-25 - Papur 29 - Llythyr drafft at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn [Saesneg yn unig]

## 12 Nodyn briffio ar gyfer yr Aelodau ar brosesau deddfwriaethol y Senedd

(14.45 - 15.15) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 - Papur 30 - Papur briffio ynghylch sesiwn dystiolaeth [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 03 Mawrth 2025

## SL(6)583 – Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") i wneud newidiadau i'r erthyglau enghreifftiol rhagnodedig ar gyfer cwmnïau Hawl i Reoli ("RTM").

Yn benodol, yn dilyn newid i'r meini prawf cymhwyso Hawl i Reoli a wneir yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, mae'r Rheoliadau'n diwygio'r dull y dyrennir hawliau pleidleisio er mwyn diogelu gallu tenantiaid sy'n aelodau o gwmni RTM i arfer mwyafrif dros landlordiaid sy'n aelodau o gwmni RTM.

Yn unol â rheoliad 2(2) o Reoliadau 2011, bydd yr erthyglau diwygiedig yn cael effaith ar gyfer cwmni RTM p'un a gânt eu mabwysiadu gan y cwmni ai peidio.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Chwefror 2025

**Fe'u gosodwyd ar:** 10 Chwefror 2025

**Yn dod i rym ar:** 03 Mawrth 2025

# SL(6)584 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer gwneud taliadau drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlenni i'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i newid gwerth talebau a ddyroddir mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a ddyroddir neu a gwblheir ond sydd heb eu defnyddio na'u derbyn cyn 21 Hydref 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(iv) – ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r wybodaeth a ganlyn ar dudalen 2, o dan y pennawd 'Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad':

> *"Bydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol yn ôl i 21 Hydref 2024 er mwyn sicrhau bod y cynnydd yng ngwerth y talebau yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw fel y cytunwyd yn ystod y negodiadau teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Optometreg Cymru. Amseru'r negodiadau blynyddol sy'n ystyried canlyniad y Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion yw'r rheswm pam mae'n ofynnol i'r*

*Rheoliadau hyn gael effaith ôl-weithredol, gan ddarparu dull teg ar draws yr holl gontractwyr gofal sylfaenol."*

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn egluro goblygiadau ymarferol yr effaith ôl-weithredol hon, nodir nad yw'n ymddangos bod y darpariaethau galluogi a enwir yn rhoi awdurdod penodol i'r Rheoliadau gael effaith ôl-weithredol.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Chwefror 2025**

# SL(6)588 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn (“Rheoliadau 2025”) yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Gosod Ffioedd”) a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Asesiad Ariannol”).

Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn llywodraethu awdurdodau lleol o ran defnyddio eu disgresiwn i osod ffioedd, cyfraniadau neu ad-daliadau am wasanaethau gofal a chymorth y darperir ar eu cyfer o dan Ran 4 (diwallu anghenion) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymorth a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae’r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn nodi’r ffordd y mae rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad ariannol o adnoddau unigolyn er mwyn pennu ffi pan fo hynny’n briodol.

Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio’r Rheoliadau Gosod Ffioedd i gymhwyso codiad i’r isafswm incwm y mae gan berson mewn cartref gofal preswyl hawl ei gadw o’i incwm wythnosol net, gan gymhwyso cynnydd o £43.90 i £44.65 yr wythnos. Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn diwygio’r Rheoliadau Asesiad Ariannol i gyfarwyddo bod taliadau a wneir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol newydd yn cael eu diystyru wrth gyfrifo cyfalaf ar gyfer pennu ffi.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd annilysu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3 yn mewnosod paragraff 42 newydd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol, sy'n cyfeirio at y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol

a Thrawsrywiol. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam na ddarperir diffiniad ar gyfer y term hwn, neu droednodyn gyda linc i wefan Llywodraeth y DU sy'n cyhoeddi gwybodaeth am y Cynllun i gynorthwyo'r darllenydd?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 o Reoliadau 2025, mae'r hanes diwygio perthnasol yn anghyflawn gan nad yw'n cynnwys "OS 2023/424" a ddiwygiodd Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd ei bod yn ymddangos bod OS 2023/424 y DU dim ond wedi diwygio testun Saesneg paragraff 40 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol. Felly, nid yw testun dwyieithog y ddarpariaeth honno bellach yn cyfateb o ran ystyr er bod gan destun y ddwy iaith statws cyfartal yn y gyfraith.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nid oedd y Rheoliadau hyn yn destun unrhyw ymgynghoriad. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol:

> *Nid yw'n ofynnol ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau Gosod Ffioedd. Yn wreiddiol, cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddor y newidiadau a wneir gan y rheoliadau diwygio i'r Rheoliadau Gosod Ffioedd rhwng 21 Rhagfyr 2016 a 25 Ionawr 2017. Nid yw'r newidiadau yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, eu diben yn hytrach yw diweddaru rheoliadau i adlewyrchu'r codiadau a gymhwysir i bensiynau y wladwriaeth a budd-daliadau. Yn sgil hynny, ni chynhelir ymgynghoriad yn flynyddol.*
>
> *Nid yw'n ofynnol ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau Asesiad Ariannol. Gallai diwygiadau o ran y diystyriadau newydd sy'n deillio o newidiadau ym mholisi Llywodraeth y DU mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli effeithio ar nifer bach o unigolion ac nid yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Dim ond addasiad technegol yw'r newidiadau i'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y rheoliadau yn adlewyrchu'n gywir y cynlluniau cymorth ariannol a nodir uchod i sicrhau bod dyfarniadau a roddir i unigolion yn cael eu diogelu rhag gosod ffioedd am ofal a chymorth.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 a 2.

**Ymateb y Llywodraeth:**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd. Y term a ddefnyddir yw'r enw a roddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r cynllun. Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn unrhyw gynllun arall y gellid drysu'r Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol ag ef. Rydym yn nodi bod Trysorlys y DU wedi gwneud set o Reoliadau at ddibenion treth incwm sy'n cyfeirio at y cynllun, sef O.S. 2025/12, ers i'r Rheoliadau gael eu drafftio. Darperir diffiniad yn Rheoliadau'r Trysorlys ond mae'r eglurhad yn y diffiniad hwnnw fwy neu lai yn dweud yr un peth â'r diffiniad ei hun felly gellid dadlau nad yw'n cynnig llawer mwy o wybodaeth i'r darllenydd na'r hyn sydd yn enw'r cynllun ei hun. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen esboniad pellach gan fod y cynllun yn un unigryw, hyd yn oed pe byddai cynnwys dolen at wefan Llywodraeth y DU sy'n cynnwys gwybodaeth am y cynllun mewn troednodyn wedi bod yn ddefnyddiol i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y ffaith bod Gorchymyn yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, dros Fusnes a Masnach, a thros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a Throsglwyddo Swyddogaethau (Deddf Diogelwch Gwladol a Buddsoddi 2021 etc) 2023 (O.S. 2023/424) wedi gwneud diwygiadau canlyniadol i destun Saesneg y Rheoliadau Asesiad Ariannol ond heb wneud y newid cyfatebol i'r testun Cymraeg. Mae Drafftio Deddfau i Gymru yn argymell cyfeirio at offerynnau diwygio perthnasol yn unig mewn troednodiadau. Ni fyddai'n arferol cyfeirio at offerynnau sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol. Yn ein barn ni, nid yw'r mater cyfwerthedd yr ydych wedi tynnu ein sylw ato yn newid y sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn yn yr offeryn statudol diwygio omnibws a fydd yn cael ei osod cyn toriad yr haf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Chwefror 2025**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025** |
| **DYDDIAD** | **11 Chwefror 2025** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |

Rwyf heddiw wedi gosod drafft o Reoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Bydd y rhain yn cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, yn ôl lleoliad a phris, mewn busnesau canolig a mawr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod yng Nghymru.

Yn benodol, bydd y cyfyngiadau lleoli yn atal cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen rhag cael eu hyrwyddo mewn lleoliadau allweddol fel mynedfa siop, pen draw eil a man talu. Byddant yn berthnasol ar-lein hefyd, er enghraifft ar dudalen fynediad gwefan. Bydd cyfyngiadau hyrwyddo yn gwahardd manwerthwyr rhag defnyddio cynigion amleitem a chynigion 'mwy am yr un pris' i hyrwyddo cynhyrchion o'r fath. Bydd ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim yn cael ei gyfyngu hefyd.

Mae'r rheoliadau hyn yn gam hanfodol o ran cyflawni'r uchelgeisiau yn ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Byddant yn helpu i symud y sylw oddi wrth fwydydd llai iach ac yn helpu i wneud cynhyrchion iachach yn fwy amlwg, hygyrch a gweladwy. Wrth wneud gwelliannau i'n hamgylcheddau bwyd, ein nod cyffredinol yw ei gwneud yn haws i bobl wneud dewisiadau iachach o ran bwyd a diod. Bydd hynny'n eu helpu i fyw bywydau iachach ac i osgoi problemau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau hyn y llynedd ac rydym wedi gwneud rhai newidiadau ar sail yr adborth a gafwyd. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r rheoliadau'n parhau i gyd-fynd â'r rhai sydd ar waith yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo busnesau ac awdurdodau lleol i weithredu a gorfodi'r gofynion a gyflwynir gan y rheoliadau hyn. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ategol cynhwysfawr a bydd cyfnod gweithredu o 12 mis cyn i'r rheoliadau ddod i rym, a hynny'n amodol ar sêl bendith y Senedd fis nesaf.

**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: VH/PO/86/25

Mike Hedges AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 10 Chwefror 2025. Fel y bydd y Pwyllgor yn ei wybod, mae llunio is-ddeddfwriaeth yn gofyn yn gyffredinol am gyfnod hir o baratoi. Yn aml, mae'r gwaith yn cael ei drefnu ymhell cyn y dyddiad ar gyfer ei gosod gerbron Senedd Cymru, a hynny er mwyn sicrhau bod y gwahanol dimau sy'n ymwneud â'r broses ddeddfwriaethol ar gael a bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni'r tasgau angenrheidiol. Mae'r gwaith o ddrafftio deddfwriaeth, yn benodol, yn cael ei gwblhau fel rheol ymhell cyn gwneud a gosod y ddeddfwriaeth, fel y gall fod yn destun gwaith sicrhau ansawdd, cyfieithu, gwiriadau cyfwerthedd, gwiriadau cyfreithiol terfynol a chymeradwyaeth Weinidogol. Yn achos y gyfres flynyddol o ddeddfwriaeth cyllid myfyrwyr, yn y broses sy'n arwain at wneud y ddeddfwriaeth honno rhaid cynnwys hefyd waith o ymgysylltu â'r corff sy'n gweinyddu ac yn gweithredu'r system cymorth i fyfyrwyr ar ran Gweinidogion Cymru.

Ar yr adeg y daeth adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024 i law, ym mis Awst 2024, roedd yr amser a neilltuwyd ar gyfer drafftio'r Rheoliadau hyn yn Saesneg ar fin dod i ben yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ar yr adeg y cafodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw, ym mis Medi 2024, roedd y Rheoliadau hyn yng ngham cyntaf y broses sicrhau ansawdd, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni ymysg y gwahanol dimau a oedd yn rhan o'r gwaith o wneud y Rheoliadau. Dechreuodd y cyfnod drafftio ar gyfer y set nesaf o reoliadau cyllid myfyrwyr ar yr un pryd; ac roedd y rhain, yn ôl yr amserlen, i'w gwneud ym mis Chwefror 2025 – sef ychydig dros fis ar ôl yr adeg yr oedd y Rheoliadau hyn i'w gwneud.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhwng mis Medi 2024 a mis Ionawr 2025, roedd y gwaith cyfieithu, y gwaith o adolygu'r drafft Cymraeg, gwiriadau cyfwerthedd, gwiriadau cyfreithiol terfynol a chymeradwyaeth Weinidogol wedi eu trefnu ar gyfer y Rheoliadau hyn (yn ogystal â thasgau cyfryngol amrywiol), a phob un ohonynt i'w gynnal ar adeg benodol yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

Felly, ystyriwyd nad oedd digon o amser i gynnwys y cywiriadau angenrheidiol sy'n ymwneud â Rheoliadau 2024 yn y Rheoliadau hyn, gan y byddai gwneud hynny wedi estyn y cyfnod drafftio ar gyfer y Rheoliadau hyn y tu hwnt i'r cyfnod y cytunwyd arno yn yr amserlen. Mae bron yn sicr y byddai hynny wedi amharu ar gamau dilynol y broses ddeddfwriaethol ac mae bron yn sicr y byddai wedi arwain at fethu dyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn, gan arwain o ganlyniad at oedi gweithredol o ran gweinyddu'r system cymorth i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

Ar yr adeg yr ymatebwyd i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024, ystyriwyd bod darn arall o ddeddfwriaeth yr oedd yn fwy addas cynnwys y cywiriadau angenrheidiol ynddi o dan yr amgylchiadau, sef Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Adlewyrchwyd hyn yn yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024, a gwnaed y ddeddfwriaeth honno ar 19 Chwefror 2025.

Mabwysiadwyd y dull hwn o weithredu oherwydd ystyriwyd bod y materion y nodwyd bod angen eu cywiro yn rhai mân, ac nad oedd brys yn eu cylch, a hynny gan nad oeddent yn creu perygl realistig o gael effaith niweidiol yn weithredol.

Yn gywir,



**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

10 Chwefror 2025

Annwyl Vikki,

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2025, trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (Rheoliadau 2025).

Fel y gwyddoch, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau technegol i wallau a nodwyd yn ystod ein gwaith craffu ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 (Rheoliadau 2023). Yn ein hadroddiad ar Reoliadau 2025, byddwch yn ymwybodol inni nodi'r paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud cywiriadau technegol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, mewn cysylltiad â diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau hynny gan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 yr adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad arnynt (mae SL(6)431 yn cyfeirio at hyn)."*

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (Rheoliadau 2024) yn codi materion tebyg yn deillio o'r gwall hanesyddol a nodwyd gyntaf yng ngwaith craffu'r Pwyllgor ar Reoliadau 2023.

O'r herwydd, gwnaethom ofyn yn ein hadroddiad ar Reoliadau 2025 a allai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r materion a oedd yn deillio o Reoliadau 2024 yn cael sylw yn Rheoliadau 2025 ac, os oedd cywiriadau'n cael eu gwneud, pam nad oedd cyfeiriad atynt yn y Memorandwm Esboniadol. Gwnaethom ofyn a fyddai modd, os nad oedd unrhyw gywiriadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'n hystyriaeth o Reoliadau 2024, inni gael y rhesymau dros hynny.

Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor:

> *"Nodwn adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Nid yw'r materion sy'n codi o Reoliadau 2024 wedi cael sylw yn y Rheoliadau hyn oherwydd, ar yr adeg y daeth adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024 i law, nid oedd digon o amser i gynnwys y cywiriadau angenrheidiol heb fethu dyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn. Bydd y cywiriadau angenrheidiol sy'n ymwneud â Rheoliadau 2024 yn cael eu cynnwys yn yr offeryn priodol nesaf, y bwriedir ei wneud ym mis Chwefror 2025."*

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024 ar 9 Medi 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion a oedd wedi deillio o'r gwall hanesyddol. Gosodwyd Rheoliadau presennol 2025 ar 8 Ionawr eleni, a'r dyddiadau dod i rym yw 3 Chwefror 2025 a 6 Ebrill 2025. O'r herwydd, nid yw'n glir i'r Pwyllgor pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd ganddi ddigon o amser i wneud y cywiriadau. Cytunodd y Pwyllgor y dylem geisio eglurder ynghylch beth yn ystod y pedwar mis rhwng mis Medi diwethaf a mis Ionawr eleni a allai fod wedi atal Rheoliadau 2025 rhag hefyd unioni'r gwallau tebyg a nodwyd gan y Pwyllgor yn Rheoliadau 2024.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 24 Chwefror 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

Eitem 4.2

# SL(6)579 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn dilyn arolygiad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau penodol, mewn perthynas â graddau a roddir gan Weinidogion Cymru, i arddangos graddau o'r fath mewn modd ac mewn man a bennir, ac yn ei gwneud yn drosedd methu â gwneud hynny; ac maent yn darparu ar gyfer gweithdrefn apelio yn erbyn graddau o'r fath o dan amgylchiadau penodol.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth sicrhau bod graddau arolygu yn cael eu rhoi ar gael neu'n cael eu harddangos ym mhob man neu ar gyfer pob man y mae'n darparu gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Diffinnir "darparwr gwasanaeth" yn rheoliad 1 (yn gryno) fel darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol. Fodd bynnag, nid yw rheoliad 3 yn cyfyngu'r gofynion mewn perthynas ag arddangos neu roi ar gael adroddiadau arolygu i fannau lle y darperir "gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol". Mae'n cyfeirio at "gwasanaeth", nad yw wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau. Gallai hyn beri dryswch os oes mwy nag un math o wasanaeth yn cael ei ddarparu mewn unrhyw fan a weithredir gan ddarparwr gwasanaeth, neu os yw darparwr gwasanaeth yn gweithredu gwasanaethau gwahanol o fannau gwahanol. Felly, gofynnir am eglurhad ynghylch pam y mae rheoliad 3 yn cyfeirio at "gwasanaeth" yn hytrach na "gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

O dan reoliad 4(2)(b), ni chaiff darparwr gwasanaeth gyflwyno apêl yn erbyn y radd a roddwyd iddo hyd nes y bydd y darparwr gwasanaeth wedi cael canlyniad adolygiad Gweinidogion Cymru o'r graddau arolygu. Nid oes cyfnod penodol wedi'i bennu y mae rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r canlyniad hwnnw o'i fewn, a gallai hynny greu ansicrwydd ac oedi i ddarparwyr gwasanaethau o ran cyflwyno apêl. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam na phenderfynodd bennu cyfnod penodol ar gyfer darparu canlyniad unrhyw adolygiad i ddarparwr gwasanaeth.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024. Ni roddir unrhyw fanylion ynghylch yr ymgynghoriad hwn, ac mae'r paragraff yn gorffen â cholon, fel pe bai rhagor o fanylion i fod i gael eu hychwanegu. Felly, nid yw'n glir a yw'r adran ar ymgynghori yn y Memorandwm Esboniadol yn gyflawn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025***

**Pwynt Craffu Technegol 1 a Phwynt Craffu ar Rinweddau 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd ac yn cytuno â hwy ac mae wedi penderfynu tynnu'r Rheoliadau yn eu hôl. Rydym yn bwriadu eu hailosod ar ffurf ddiwygiedig i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ar 4 Mawrth 2025.

Bydd Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn cael ei osod ochr yn ochr â'r Rheoliadau a ailosodir er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** O ran yr ail Bwynt Craffu Technegol, gall yr wybodaeth a ganlyn fod o gymorth i'r Pwyllgor:

Mae'r amserlen y mae Arolygiaeth Gofal Cymru (sy'n arfer swyddogaethau rheoleiddiwr ar ran Gweinidogion Cymru) yn ei dilyn ar gyfer darparu canlyniad adolygiad y gofynnir amdano o dan reoliad 4(2)(a) wedi ei nodi ym mharagraff 6.9 o'r ddogfen ganlynol gan Arolygiaeth Gofal Cymru: Polisi ar gyfer Ymateb i Adroddiadau Arolygu (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru.

> *"6.9. Rydym yn ceisio ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith i gael her. Os na fydd modd (neu os yw'n debygol na fydd modd) cadw at y terfyn amser, rhoddir gwybod i'r Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r unigolyn perthnasol am yr oedi a'r terfyn amser newydd ar gyfer ein hymateb."*

Y polisi yw'r modd ar gyfer gosod y terfynau amser ar gyfer rhannu canlyniad adolygiad Gweinidogion Cymru. Mae darparu'r amserlen ar gyfer ymateb yn y polisi yn hytrach na mewn deddfwriaeth yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparwyr gael sicrwydd a'r angen i osgoi oedi, yn ogystal â rhoi mwy o hyblygrwydd ar lefel weithredol pan all nifer o ffactorau amrywiol effeithio ar amseriadau.

# SL(6)582 – Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, fel sy'n ofynnol gan adran 26 o *Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024*.

Bwriad y platfform yw darparu gwybodaeth gyfredol i etholwyr i'w helpu i gymryd rhan yn etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol, a gaiff ei sefydlu fel rhan o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a fydd yn gweithredu'r platfform.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn nodi:

> "*Bwriad polisi cyffredinol y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bleidleiswyr a sicrhau bod yr wybodaeth honno'n hygyrch er mwyn i ddinasyddion Cymru gynyddu eu dealltwriaeth, eu hymwybyddiaeth a'u hyder i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Gall y platfform gynnwys gwybodaeth i helpu etholwyr i ddeall y broses ddatganoli o ran etholiadau Cymreig, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng etholiadau sydd wedi'u datganoli a'r rhai a gadwyd yn ôl.*"

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei rhoi ar y platfform (fel gwybodaeth am ymgeiswyr, am bleidiau gwleidyddol ac am drefniadau hygyrchedd), a'r gofynion perthnasol mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 2 yn ddarpariaeth ddehongli. Mae'n darparu tri diffiniad ar wahân ar gyfer "*ymgeisydd*" yn y Rheoliadau, yn dibynnu ar y cyd-destun.

Mae'r ddau ddiffiniad cyntaf yn cwmpasu (**a**) ymgeiswyr unigol (h.y. ymgeiswyr annibynnol) ar gyfer etholiadau'r Senedd, a (**b**) ymgeiswyr rhestr plaid ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Fodd bynnag, mae'r drafftio ar gyfer (**a**) yn anghywir gan ei fod yn dweud "*unigolyn sy'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd*". Yn ein barn ni, mae'n bosibl y gallai ymgeisydd rhestr plaid hefyd ddod o dan y diffiniad hwn gan y byddent hwythau hefyd, yn ôl ystyr naturiol a chyffredin y geiriau, yn unigolion sy'n sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.

Sylwn fod y ddarpariaeth ddehongli yn y *Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025* (y "**Gorchymyn Cynnal Etholiadau Drafft**") yr ymgynghorwyd arno yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn diffinio '*ymgeiswyr unigol'* fel "*ymgeisydd mewn etholiad y Senedd ac eithrio ymgeisydd rhestr plaid*".

Dylid ystyried diwygio'r diffiniad o 'ymgeisydd' yn y Rheoliadau er mwyn gwahaniaethu'n gliriach rhwng ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 4(2)(b) yn darparu bod rhaid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (yn rhinwedd ei swydd fel gweithredwr platfform) sicrhau bod y platfform yn darparu, yn lletya ac yn cyhoeddi gwybodaeth mewn modd gwleidyddol niwtral am —

i. etholiadau penodedig (h.y. etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru),
ii. ymgeiswyr, a
iii. phleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll ***mewn etholiadau i Senedd Cymru***; [ychwanegwyd pwyslais]

Nid yw'n glir pam nad yw'r ddyletswydd hon yn ymestyn i gyhoeddi gwybodaeth am bleidiau gwleidyddol sydd wedi cofrestru yng nghyd-destun etholiadau cyffredin i brif gynghorau Cymru.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6(1)(g) yn darparu bod yn rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi, neu drefnu i gyhoeddi, y "*trefniadau hygyrchedd sydd ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio*" ar gyfer pob etholiad penodedig.

Mae cwmpas y rhwymedigaeth hon yn aneglur. Yn y cyd-destun hwn, gall ymestyn i drefniadau hygyrchedd ar gyfer mynd i mewn i orsafoedd pleidleisio, trefniadau ar gyfer cynorthwyo personau i bleidleisio, neu'r ddau.

O ran yr ystyr posibl olaf, nodwn fod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau Drafft yn cynnig ehangu'r dyletswyddau mewn perthynas ag offer mewn gorsafoedd pleidleisio drwy osod dyletswydd ar y Swyddog Canlyniadau i ddarparu "*offer sy'n rhesymol angenrheidiol*" i ganiatáu i bersonau bleidleisio'n annibynnol.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau beth y bwriedir i reoliad 6(1)(g) ei gwmpasu. Rydym hefyd yn gofyn a yw gofyniad sy’n gorfodi gweithredwr y platfform i gyhoeddi’r trefniadau hygyrchedd sydd ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio yn ymarferol, yn ddichonadwy ac yn ddigon sicr o ystyried y ddyletswydd ehangach arfaethedig yn rheol 37(7)(b) o Atodlen 5 i’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau Drafft.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn ymdrin ag anerchiadau etholiad a datganiadau ymgeiswyr. Nid yw'n glir pam y mae anghysondeb yn y gofynion perthnasol ar gyfer y materion hyn rhwng rheoliad 9 a rheoliad 11(3), yn y drefn honno. Mae rheoliad 9 a rheoliad 11(3) ill dau yn gyson na ddylai’r naill na’r llall gynnwys unrhyw ddeunydd:

(a) sy’n anllad, yn dramgwyddus neu’n anweddus,

(b) y byddai ei gyhoeddi yn debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd.

Fodd bynnag, mewn perthynas â datganiadau ymgeiswyr, mae rheoliad 11(3) yn darparu ymhellach na chaniateir iddynt gynnwys unrhyw ddeunydd:

(c) sy'n gyfystyr â hysbysebu neu a allai arwain at fudd masnachol; neu

(d) a allai gamarwain neu ddrysu pleidleiswyr o ran y system etholiadol a ddefnyddir yn yr etholiad neu o ran effaith rhoi eu pleidlais.

Nid yw’n glir pam nad yw (c) ac (d) hefyd yn gymwys i anerchiadau mewn etholiadau o dan reoliad 9.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 13(3)(a) yn darparu bod rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi hysbysiad o’r broses gyflwyno ar gyfer anerchiadau etholiad neu ddatganiadau ymgeiswyr gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, dyddiad y diwrnod olaf y caniateir cyflwyno y dogfennau hynny i gael eu cyhoeddi ar y platfform.

A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried rhagnodi dyddiad cau at y dibenion hyn, neu a fydd yn fater o ddisgresiwn gweithredwr y platfform ar gyfer pob etholiad penodedig?

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd;**

Mae nifer o groesgyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddarpariaethau yn y *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* ( O.S. 2007/236 ) (y "**Gorchymyn Cynnal Etholiadau 2007**").

Bwriad datganedig Llywodraeth Cymru yw disodli Gorchymyn Cynnal Etholiadau 2007 gyda fersiwn derfynol o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau Drafft mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol arferol nesaf y Senedd yn 2026. Ar ôl iddo gael ei ddisodli, bydd y cyfeiriadau at Orchymyn Cynnal Etholiadau 2007 yn y Rheoliadau hyn yn dod yn ddiangen.

Nodwn y paragraff yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn sy'n cadarnhau bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i "*diwygio'r Rheoliadau hyn unwaith y bydd y Gorchymyn newydd wedi'i wneud, i gyfeirio at union ddarpariaethau'r gorchymyn diwygiedig hwnnw*".

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd;**

Mae rheoliad 8 yn darparu y caiff ymgeiswyr unigol neu bleidiau gwleidyddol cofrestredig ddarparu anerchiad etholiadol i weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform gwybodaeth am etholiadau'r Senedd. Mae anerchiad etholiadol yn cyfeirio at gopi o'r ddogfen cyfathrebu am ddim drwy'r post fel y'i cymeradwywyd gan y Post Brenhinol.

Ar gyfer y prif etholiadau awdurdodau lleol, mae rheoliad 10 yn darparu y caiff ymgeiswyr neu asiant etholiadol ymgeisydd gyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar y platfform. Datganiadau byr yw'r rhain am yr ymgeisydd, sy'n manylu ar y rhesymau pam mae'n nhw am gael eu hethol.

Mae rheoliad 16 yn darparu na fydd unrhyw berson yn ysgwyddo unrhyw atebolrwydd sifil neu atebolrwydd troseddol mewn perthynas â chyhoeddi cynnwys anerchiad etholiad neu ddatganiad ymgeisydd ar y platfform, ac eithrio:

(a) yr ymgeiswyr neu'r ymgeisydd y mae'r anerchiad etholiad neu ddatganiad yr ymgeisydd yn ymwneud ag ef, a

(b) yr asiant etholiadol ar gyfer yr ymgeisydd neu'r blaid wleidyddol gofrestredig, sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth, y mae'r anerchiad etholiadol neu'r datganiad ymgeisydd yn ymwneud ag ef.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd;**

Mae Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol (**RIA**) ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae paragraff 22 a pharagraff 23 yn ymdrin ag amcangyfrif o'r costau. Mae'n nodi bod y rhain yn debygol o syrthio i ddau gategori, sef: (1) adnoddau o fewn y Bwrdd Rheoli Etholiadol, a (2) costau darparwr gwasanaeth trydydd parti i ddylunio ac adeiladu'r platfform.

O ran yr olaf o'r rhain, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi amcangyfrif y byddai costau sefydlu cychwynnol o £750,000 - £1 miliwn yn cael eu hysgwyddo yn 2025-26, ac y

byddai gwaith cynnal a chadw blynyddol amcangyfrifedig o £80,000-110,000 yn dechrau o 2026-27.

Mae'n nodi ymhellach y gallai fod costau ychwanegol wrth i'r platfform ddatblygu, ond bod y costau gwirioneddol yn *anhysbys ar hyn o bryd ac ni ellir eu hamcangyfrif oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a sensitifrwydd masnachol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwyntiau technegol 1 i 5 yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd. Mae'r gwaith drafftio yn cyd-fynd â'r ieithwedd a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Mae'r ddwy Ddeddf yn cyfeirio at ymgeiswyr unigol ("individual candidates"). Nid yw'r naill na'r llall yn darparu ar gyfer diffiniad pellach o ymgeisydd unigol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ystyr "unigolyn sy'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd" yn glir gan fod cysyniad pendant ymgeisydd rhestr plaid yn ei ddilyn.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall fod lle i egluro hyn ymhellach ac felly mae'n bwriadu gwneud diwygiad i'r perwyl hwn, ac er mwyn sicrhau cysondeb â'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft.

Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r O.S. hwn, unwaith y bydd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi ei wneud, i groesgyfeirio at y Gorchymyn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i achub ar y cyfle hwnnw i wneud y diwygiad hwn ar yr un pryd. Gwneir hynny cyn diwedd 2025. Ni fydd unrhyw effeithiau anfanteisiol o aros tan hynny i ddiwygio'r ddarpariaeth ddiffinio, gan y bydd y diwygiad yn cael ei wneud ymhell cyn etholiad 2026 a thra bo'r platfform gwybodaeth yn cael ei sefydlu.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd. Fodd bynnag, mae'r gwaith drafftio yn adlewyrchu'r gwahanol systemau pleidleisio sydd ar waith ym mhob etholiad ac yn osgoi unrhyw ddryswch posibl rhyngddynt. Nid yw pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn 'sefyll' mewn etholiadau i brif gynghorau. Byddai cyhoeddi gwybodaeth am bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng nghyd-destun etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru yn dod o dan reoliad 4(2)(b)(i) fel gwybodaeth am etholiad penodedig.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd. Mae'r gwaith drafftio yn adlewyrchu gwelliant anllywodraethol a wnaed i Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (a oedd yn Fil ar y pryd) gan Rhys ab Owen, yn ystod Cyfnod 3 hynt y Bil hwnnw. Mae'r rheoliad yn cyfeirio at drefniadau hygyrchedd mewn *gorsafoedd pleidleisio*. Rhagwelir y gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddarparu rampiau ar gyfer cadeiriau olwyn; dolenni sain; a chyfleusterau parcio a thoiledau i bobl anabl, yn hytrach nag offer i'w ddarparu i bleidleiswyr i'w cynorthwyo i fwrw pleidlais yn y bwth pleidleisio – ymdrinnir â'r trefniadau hygyrchedd hyn yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft. Mae'r ddyletswydd y mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn ei rhoi ar y Swyddog Canlyniadau yn ymwneud ag offer a ddarperir fel y gall pleidleiswyr bleidleisio'n annibynnol ac fel y gall cydymaith gynorthwyo.

Mae cynllun peilot, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi ei gynnal gyda'r Clwb Democratiaeth i ganfod pa mor ymarferol bosibl yw darparu gwybodaeth ar y platfform ynghylch trefniadau hygyrchedd yn yr orsaf bleidleisio. Bydd y gofyniad i gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn cael ei gynnwys yn y fanyleb gaffael i drydydd parti greu ac adeiladu cyfleuster electronig.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae'r trefniadau ar gyfer anerchiadau etholiadol (ar gyfer etholiadau'r Senedd) yn defnyddio system sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi ei sefydlu ers tro (cyfathrebiad post), y darperir ar ei chyfer yn y ddeddfwriaeth bresennol, sef Gorchymyn Cynnal Etholiadau 2007. Mae'r rheolau ar gynhyrchu cyfathrebiadau post hefyd wedi eu hamlinellu yn nhelerau ac amodau'r darparwr gwasanaeth cyffredinol, sef y Post Brenhinol ar hyn o bryd. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull sy'n ymyrryd leiaf yn hyn o beth, gan nad oedd o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur ymyrryd ymhellach â'r fframwaith presennol.

Fodd bynnag, mae darparu datganiadau ymgeiswyr yn gysyniad newydd a sefydlir gan y Rheoliadau hyn, gan olygu bod angen gwneud darpariaethau mwy rhagnodol.

Mae'r Rheoliadau hyn, drwyddynt draw, yn gwahaniaethu rhwng etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau, a hynny er mwyn adlewyrchu'r gwahanol systemau etholiadol ac i warchod rhag dryswch.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Ystyriodd Llywodraeth Cymru ragnodi dyddiad cau at y dibenion hyn. Fodd bynnag, bydd y dyddiad erbyn pryd y bydd angen cyflwyno datganiadau ymgeiswyr/anerchiadau etholiadol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) yn dibynnu ar ddyluniad y system (sydd eto i'w benderfynu), a chapasiti'r BRhE i weinyddu'r broses. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gadael dyddiad o'r fath i ddisgresiwn gweithredwr y platfform (y BRhE) ar gyfer pob etholiad penodedig. Fodd bynnag, rhaid cynnwys y dyddiad hwnnw yn yr hysbysiad o'r broses gyflwyno.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC-RE-10655-24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

17 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 16 Ionawr, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025. Caiff hysbysiad am y cyfarfod hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl yn y cyfarfod a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU.

Byddaf yn cadeirio'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nesaf ar gyfer Busnes a Diwydiant yn unol â'r trefniadau cylchdroi cadeiryddion. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn cadarnhau'r dyddiad unwaith y cytunwyd arno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Rebecca

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our - ref KS/PO/71/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

18 Chwefror

Annwyl Mike

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Trafnidiaeth**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth a gynhelir ar 5 Mawrth 2025.

Byddaf yn cadeirio'r cyfarfod, ac rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar Wydnwch Porthladdoedd, Diwygio Treth Moduro ac E-Sgwteri.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf: POHID/PO/0093/25

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Chwefror 2025

Annwyl Mike, Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol i'ch hysbysu o gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhelir ar 6 Mawrth 2025 ym Melffast. Rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar biomethan, ynni cymunedol a'r Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0094/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu am seithfed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol (IMSC), a gynhelir ar 27 Chwefror 2025.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei gyd-gadeirio gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod rhithwir hwn. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod yn gyfle i drafod y defnydd o dechnoleg wrth ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â materion allweddol eraill sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

The Rt Hon Elin Jones MS
Llywydd
Chair, Business Committee

17 February 2025

Dear Llywydd,

Legislative Consent Memorandum No. 6 on the Water (Special Measures) Bill

In our committee meeting this afternoon, we discussed a Supplementary Legislative Consent Memorandum (Memorandum No. 6) on The Water (Special Measures) Bill.

You will be aware that the Senedd agreed a legislative consent motion for the Bill on 21 January 2025.

Memorandum No. 6 was laid before the Senedd on 31 January 2025 by Huw Irranca-Davies MS, Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs (the Cabinet Secretary). At paragraph 13 the Cabinet Secretary states:

> *“The UK’s Government’s view is that amendments to Clauses 10 and 15 require legislative consent from the Senedd. I agree with this assessment.”*

Paragraph 18 closes by saying:

> *“Therefore, I recommend that the Senedd supports the proposals and gives its consent.”*

However, in his letter to us of 11 February 2025, responding to our report on the previous five memoranda, the Cabinet Secretary said:

> *“Regrettably, given the scheduling of the Bill we do not expect there to have time to hold a further Senedd debate ahead of the anticipated Royal Assent date.”*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

We note that Standing Order 29.2 states:

> *29.2 A member of the government must lay a memorandum ("a legislative consent memorandum") in relation to:*
>
> *(…)*
>
> *(iii) any Bill introduced into the UK Parliament that, by virtue of amendments:*
>
> *(a) agreed to; or*
>
> *(b) tabled by a Minister of the Crown or published with the name of a Minister of the Crown in support,*
>
> *in either House, makes (or would make) relevant provision for the first time or beyond the limits of any consent previously given by the Senedd, normally no later than two weeks after the amendments are tabled or agreed to.*

We believe that, having laid Memorandum No. 6, the Welsh Government should be tabling a motion to enable a debate on that Memorandum.

In our view, there are important matters of public policy that require clarification from the Welsh Government and a debate on the floor of the Senedd is the appropriate place for that clarification to be provided.

Moreover, there are matters of principle and constitutional propriety relating to the legislative consent process that are relevant, including matters of concern that we have following the Cabinet Secretary's letter of 11 February 2025.

Given the urgency in drawing this issue to the attention of the Business Committee, we apologise that our letter is being sent in English only.

I am copying this letter to the Cabinet Secretary.

Yours sincerely,

Mike Hedges

Mike Hedges
Chair

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 7)**

**Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cafodd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (“y Bil”) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 4 Medi 2024. Gosodais LCM ar 18 Medi 2024 ac LCMau Atodol ar 4 a 27 Tachwedd, 4 Rhagfyr 2024 a 10 a 31 Ionawr 2025.

3. Ceir fersiwn ddiweddaraf y Bil yma Water (Special Measures) Bill [HL] - Parliamentary Bills - UK Parliament

**Amcan(ion) y Polisi**

4. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i gryfhau pwerau'r rheoleiddiwr ac i ddatrys y problemau llygredd dŵr. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth Lafur i lanhau ein dyfrffyrdd. Mae'r Bil yn ymateb i fethiannau eang canfyddedig y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio. Rwyf wedi cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr gael eu cymhwyso i Gymru.

**Crynodeb o’r Bil**

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu mesurau y bwriedir iddynt gryfhau pwerau rheoleiddwyr y diwydiant dŵr, gan gynnwys Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). Gwneir y newidiadau a weithredir gan y Bil drwy gyfuniad o ddarpariaethau annibynnol a diwygiadau i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sydd gyda’i gilydd yn gyfran arwyddocaol o'r ddeddfwriaeth sy'n bod sy'n ymwneud â dŵr.

6. Cytunais mewn egwyddor i estyn y ddarpariaeth i Gymru a cheisio pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy'r Bil.

**Y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

7. Bu trafod rheolaidd rhwng y DU a Llywodraeth Cymru gydol taith y Bil trwy'r Senedd.

8. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau consesiynol yng Nghyfnod Ping-Pong Tŷ’r Cyffredin i Gymal 1 (Remuneration and governance). Mae’r SLCM hwn yn ymdrin â’r gwelliannau hyn gan Lywodraeth y DU.

**Darpariaethau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU i’w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ’r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

9. Mae Gwelliant 1B Tŷ’r Arglwyddi wedi effeithio ar Gymal 1 y Bil. Gwnaeth y gwelliant ddileu gwelliant 1B Tŷ’r Arglwyddi a gymeradwywyd yn y cyfnod Ping-Pong gan fewnosod yn ei le adran 35E newydd (Authority to secure publication of financial overview) yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Diben y ddarpariaeth newydd yw ei gwneud hi’n ofynnol i Ofwat wneud i gwmnïau dŵr gyhoeddi gwybodaeth benodol am sefyllfa ariannol y cwmni o leiaf unwaith y flwyddyn, ac i’r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi ar ffurf y gall aelodau’r cyhoedd ei deall. Mae’n rhaid i hyn gael ei gyflawni drwy un ai greu rheolau newydd, neu drwy ddefnyddio pwerau penodi presennol Ofwat.

10. Mae Rheswm 2A Gwelliant Tŷ’r Arglwyddi wedi effeithio ar Gymal 1 y Bil. Ar ôl llinell 32, mae’r canlynol yn cael ei fewnosod:
“(5) The first rules under section 35B of the Water Industry Act 1991 (inserted by subsection (3)) may not be issued unless— (a) the rules have been provided in draft to the Secretary of State, and (b) the period of 7 days beginning with the day on which the draft was provided has elapsed.”

11. Diben y gwelliant hwn yw cymryd lle gwelliant na chyflwynwyd gan y Llywodraeth y cytunwyd arno yng Nghyfnod Ping-Pong Tŷ’r Arglwyddi, ac nid yw’n cael unrhyw effaith arwyddocaol ar weithredu’r ddarpariaeth. Roedd angen y math yma o welliant er mwyn osgoi haeriad dwbl yn y Senedd.

**Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

12. Nid yw gwelliannau Llywodraeth y DU yn newid fy marn ynghylch y gofyn am gydsyniad ar gyfer y cymalau hynny y maent yn eu diwygio. Mae hynny am fod y cymalau hynny'n ymwneud â mater datganoledig, sef y diwydiant dŵr.

13. Barn Llywodraeth y DU yw bod y gwelliannau i Gymal 1 yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

14. Mae'r rhesymau a nodwyd yn yr LCM blaenorol ar y Bil hwn ynghylch pam ei bod yn briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth am Gymru yn y Bil hwn yn parhau'n berthnasol.

15. Bydd y Bil yn dod â newidiadau cadarnhaol ac yn cefnogi ein nod cyffredinol i leihau llygredd dŵr yng Nghymru. Mae'r Bil yn deddfu ar ystod o bynciau a materion polisi y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu

nodau ac amcanion clir arnynt.

16. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae'r LCM hwn yn disodli'r cyfeiriad at ‘ddŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol’ mewn LCMau blaenorol. Mae'n wir fod rhai o'n hafonydd eiconig, fel afon Hafren, afon Dyfrdwy ac afon Gwy, yn croesi ffiniau cenedlaethol. Mae'r hyn sy'n digwydd i fyny'r afon yn Lloegr yn effeithio i lawr yr afon yng Nghymru ac i'r gwrthwyneb ac felly mae cydweithredu yn allweddol. Yn ogystal, mae rheoleiddwyr fel Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, y sefydliad sy'n hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, yn gweithredu gyda chylchoedd gwaith Cymru a Lloegr. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ac felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol.

**Goblygiadau ariannol**

17. Nid yw'r gwelliannau'n golygu unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Casgliadau**

18. Yn fy marn i, ac yn dilyn y cydsyniad gan y Senedd i’r Bil hwn, mae'n briodol delio â'r gwelliannau hyn yn y Bil hwn trwy Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan eu bod yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, ac mae'r mater yn gofyn am gydweithio a chydlynu rhwng ein dwy Lywodraeth.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Chwefror 2025**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**BIL GREAT BRITISH ENERGY**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cafodd Bil Great British Energy ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Gorffennaf 2024. Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar 8 Awst 2024 ar y Bil fel y'i cyflwynwyd sy'n cynnwys crynodeb o'r Bil. Gosodais LCM Atodol ar 24 Ionawr 2025 yn ymdrin â gwelliannau Llywodraeth y DU a osodwyd ar 23 Ionawr 2025.

3. Cwblhaodd y Bil Gam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 11 Chwefror 2025. Mae'r LCM Atodol hwn yn ymdrin â rhagor o welliannau gan Lywodraeth y DU a osodwyd ar 5 Chwefror 2025. Mae'r fersiwn ddiweddaraf y Bil ar gael yma: Bil Great British Energy

**Amcan y polisi**

4. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw bod y cwmni Great British Energy yn sbarduno ynni glân, yn creu swyddi, yn ein gwneud yn annibynnol o ran ynni ac yn rhoi gwerth eu harian i drethdalwyr y DU. Bwriedir i'r Bil sefydlu Great British Energy i ymwneud â phob agwedd ar brosiectau ynni glân, gan gynnwys eu dylunio, eu datblygu, eu hadeiladu, eu comisiynu a'u rhedeg. Bwriedir i'r polisi gynnwys cefnogi seilwaith ar draws y gadwyn cyflenwi ynni glân, sefydlu'r Cynllun Pŵer Lleol a mesurau i helpu i ddiogelu'r cyflenwad ynni a defnyddio ynni'n effeithlon.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

5. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddau welliant i'r Bil ar ôl Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 23 Ionawr 2025 a oedd yn gwneud darpariaeth oedd yn berthnasol i Gymru. Trafodwyd y gwelliannau hynny yn yr LCM atodol a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr 2025. Ar sail y gwelliannau hynny a gyflwynwyd, argymhellais fod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil. Rhoddodd y Senedd ei chydsyniad yn y ddadl ar 4 Chwefror 2025.

---

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sylwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn fel "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y newidiadau i Fil Great British Energy yn dilyn gwelliannau'r llywodraeth a gyflwynwyd ar 5 Chwefror 2025**

6. Mae gwelliant 8 yn effeithio ar gymal 3 trwy fewnosod: "(including through projects involving or benefiting local communities).” Mae'r gwelliant hwn yn egluro y caiff Great British Energy hwyluso, annog a chymryd rhan yn y pethau a enwir yn is-adran (2)(a) i (d) drwy brosiectau sy'n cynnwys cymunedau lleol neu sydd o fudd iddynt. Mae'n annhebygol y bydd y gwelliant hwn yn effeithio'n sylweddol ar effaith y darpariaethau yn y cymal y ceisiwyd caniatâd ar ei gyfer o'r blaen.

7. Mae gwelliant 21 yn effeithio ar Gymal 5 trwy fewnosod: “(1A) The Secretary of State must comply with subsection (1) within the period of six months beginning with the day on which this Act comes into force.” Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad ar flaenoriaethau strategol Great British Energy o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym. Yn ystod y ddadl yn y Senedd ar 4 Chwefror roedd peth pryder ynghylch y gorgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau GBE a chyrff cyflawni yng Nghymru. Bydd cyhoeddi blaenoriaethau strategol o fewn chwe mis yn helpu i leihau ansicrwydd a bydd yn helpu i egluro sut y bydd GBE yn gweithredu yng Nghymru.

8. Mae gwelliant 38 yn cyflwyno cymal newydd ar ôl Cymal 7 trwy fewnosod: “7A Sustainable development Great British Energy must keep under review the impact of its activities on the achievement of sustainable development in the United Kingdom.” Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Great British Energy adolygu effaith ei weithgareddau ar ddatblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gofynion cryf o ran datblygu cynaliadwy ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn egluro sut yr ydym ni yn gwella llesiant Cymru. Bydd y gwelliant yn cefnogi ein nodau i wella llesiant Cymru.

**Barn Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

9. Byddai'r gwelliannau'n gwneud darpariaeth berthnasol o ran materion datganoledig i'r un graddau ag a nodir ym mharagraffau 13-24 o'r LCM a osodwyd ar 8 Awst 2024. O ganlyniad, dylid gofyn am gydsyniad y Senedd iddynt. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r asesiad hwn.

**Goblygiadau ariannol**

10. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru os bydd y Senedd yn cydsynio bod y darpariaethau'n gymwys i Gymru.

**Casgliad**

11. Yr argyfwng hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi deddfwriaeth i sefydlu GBE i hwyluso ac annog datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.

12. Rwy'n croesawu cydsyniad y Senedd i Fesur Great British Energy yn dilyn y ddadl ar 4 Chwefror 2025. Mae'r gwelliannau pellach hyn i'r Bil yn gwneud mân ddarpariaeth atodol i'r cymalau hynny y ceisiwyd caniatâd iddynt o'r blaen. O ganlyniad, mae'r LCM atodol hwn yn parhau'n gyson â'r cydsyniad a roddwyd o'r blaen.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**19/02/2025**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

14 Chwefror 2025

Annwyl Huw,

Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 10 Chwefror 2025 i drafod y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)..

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedais y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gyda chwestiynau ychwanegol nad oedd amser i'w gofyn yn ystod y sesiwn. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch hefyd gynnig darparu copïau o'r canllawiau drafft i helpu i lywio gwaith y Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad, yn ogystal â darparu copi o'r canllawiau drafft, erbyn 5 Mawrth 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Atodiad

**Cwestiwn 1:** Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 8 Tachwedd 2024, dywedodd y Prif Weinidog fod y broses ymgysylltu â Llywodraeth y DU i geisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y darpariaethau wedi dechrau. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y disgwylir i gydsyniad ddod i law?

**Cwestiwn 2:** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn trafod hawliau dynol, er bod sôn am hawliau dynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. I ba raddau yr ydych chi wedi ystyried hawliau dynol wrth baratoi'r Bil?

**Cwestiwn 3**: Beth oedd canlyniad unrhyw asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag effeithiau'r Bil ar hawliau dynol? Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i gyfyngu ar yr ymyrraeth â hawliau dynol gan y Bil?

**Cwestiwn 4:** A allwch egluro a arweiniodd canlyniad yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder at newid y dull gweithredu mewn perthynas â'r Bil, ac os felly, beth oedd y newid hwnnw?

**Cwestiwn 5:** Rydych chi wedi cydnabod bod y Bil yn newid elfennau o'ch Papur Gwyn yn 2022 am resymau hyblygrwydd, cymesuredd a rhesymoldeb. Pam na wnaethoch chi, felly ymgynghori ar Fil drafft o ystyried pwysigrwydd y pwnc?

**Cwestiwn 6:** Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i disgrifiwyd yn y Papur Gwyn a'r Bil fel y'i cyflwynwyd? Fel rhan o'ch ateb, a allwch nodi pob enghraifft lle'r oedd y Papur Gwyn yn awgrymu defnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ond y bydd canllawiau bellach yn cael eu defnyddio yn lle hynny?

**Cwestiwn 7**: Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir, ond roedd y Papur Gwyn hefyd yn awgrymu y byddai'r Llywodraeth yn ystyried datblygu fframwaith a all fod yr un mor berthnasol i domenni glo ag i domenni nad ydynt yn domenni glo, gan olygu y byddai modd mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys mathau eraill o domenni sborion yn y gyfundrefn newydd (paragraff 1.44).

(i) A yw cynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y Bil wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar ganllawiau i gyflawni ei amcanion yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth? (Er enghraifft, mewn perthynas â chynlluniau rheoli – gweler paragraff 6.12 o'r Papur Gwyn).

(ii) Os nad dyna'r achos, sut y mae'r penderfyniad i ymestyn cwmpas y Bil i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo wedi effeithio ar fanyldeb y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, yn ogystal â'r pwerau i wneud rheoliadau a'r defnydd a wneir o ganllawiau?

Cwestiwn 8: Beth yw'r berthynas rhwng diffiniad 'bygythiad i les dynol' (neu 'threat to human welfare') yn adran 82, a phrif amcan yr Awdurdod yn adran 2(1) i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth llesiant dynol?

Cwestiwn 9: Mae adran 2(1) o'r Bil yn nodi prif amcan yr Awdurdod. Beth yw amcanion eraill yr Awdurdod, a pham nad yw'r rhain wedi'u nodi ar wyneb y Bil?

Cwestiwn 10: Mae adrannau 12 i 19 yn ymwneud ag asesiadau o sefydlogrwydd tomen. Mae'r ffordd y cynhelir asesiadau i'w benderfynu mewn canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Pam nad oes unrhyw fanylion am sut y bydd asesiadau'n cael eu cynnal ar wyneb y Bil? Pam na wnaethoch ystyried cynnwys pŵer i'r wybodaeth honno gael ei nodi ar ffurf rheoliadau?

Cwestiwn 11: Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hawl i apelio yn erbyn eitem yng nghofrestr y domen ar y sail nad oes tomen ar y tir. Yn hytrach na phroses apelio, mae adran 20 o'r Bil yn galluogi perchennog y domen (a phersonau eraill) i gyflwyno sylwadau ar y cynnig i gofrestru tomen, y mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw iddynt wrth benderfynu a ddylid ei chofrestru. I ba raddau ydych chi'n ystyried bod y dull hwn yn cyfleu bwriad argymhelliad Comisiwn y Gyfraith?

Cwestiwn 12: Mae adrannau 20, 22 a 29 yn cynnwys pwerau Harri VIII. Pam eu bod yn destun y weithdrefn negyddol?

Cwestiwn 13: Mae adran 24 yn ymwneud â'r categorïau o domenni. Yn ôl y Papur Gwyn (paragraff 7.7):

"*Credwn, er mwyn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, y dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ba gategori o domen, gan roi digon o wybodaeth i bartïon ymlaen llaw ynghylch pa gyfrifoldebau y bydd yn ofynnol iddynt eu cyflawni.*"

Pam nad ydych wedi dilyn yr hyn a gynigiodd y Papur Gwyn?

Cwestiwn 14: Yn llythyr Llywodraeth Cymru at Gomisiwn y Gyfraith ym mis Mawrth 2023 dywedodd y byddai'r Awdurdod o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i gynlluniau rheoli gael eu paratoi ar gyfer tomenni Categori 1 a 2. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (paragraff 3.73) fel a ganlyn:

"*Er nad yw'r Bil yn cynnwys gofyniad i greu cynlluniau rheoli, bydd cynlluniau o'r fath yn bwysig wrth gymhwyso'r gyfundrefn.*"

Er y cafodd cynlluniau rheoli eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro beth achosodd i'r safbwynt hwn newid?

Cwestiwn 15: Os mai dim ond disgwyliad yn y canllawiau yw paratoi cynlluniau rheoli, a yw hynny'n golygu y gallai fod yn bosibl na fydd gan rai awgrymiadau Categori 1 a 2 gynlluniau rheoli ac felly'n tanseilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth?

Cwestiwn 16: Roedd y Papur Gwyn yn cynnig amrywiaeth o bwerau gorfodi a throseddau cysylltiedig, ac ystod o sancsiynau sifil fel cosbau ariannol penodedig, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ati. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (paragraff 4.30) yn ystod y broses o ddatblygu polisi y penderfynwyd y byddai eu cynnwys "yn gwneud y gyfundrefn yn or-fiwrocrataidd ac yn anhydrin".

Pam y byddai materion gorfodi sy'n cael eu gosod ar wyneb y Bil yn rhy fiwrocrataidd ac yn anhydrin ac a oes risg y gallai'r bwlch hwn leihau hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn?

Cwestiwn 17: Pam nad oes trefn sancsiynau sifil ar wyneb y Bil?

Cwestiwn 18: Mae adrannau 33 a 34 yn caniatáu i eiddo gael ei waredu gan yr Awdurdod a pherchnogion tomennydd nas defnyddir, gan gynnwys trwy werthu. Pam ydych chi'n ystyried bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol ac a allech chi roi manylion yr hyn y gellid ei werthu o dan y pŵer hwn?

Cwestiwn 19: O ystyried faint o fanylion a adewir i ganllawiau, pam na roddwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a diweddaru canllawiau, a pham ydych chi'n dibynnu ar y swyddogaethau gweithredol yn adran 58 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*? Sut y mae hynny'n gyson ag agenda hygyrchedd Llywodraeth Cymru?

Cwestiwn 20: Mae adran 72 yn atal achosion rhag cael eu dwyn mewn cysylltiad â throsedd yn y Bil, neu reoliadau a wneir oddi tano, ac eithrio gan yr Awdurdod gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Pam fod angen y ddarpariaeth hon?

Cwestiwn 21: Pam yr ydych yn ystyried bod angen pŵer Harri VIII yn adran 73?

Cwestiwn 22: Beth yw diben adran 79 o'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â thir Eglwys Loegr?

Cwestiwn 23: Mae Adran 80 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n addasu cymhwysiad y Ddeddf hon mewn perthynas â thir y mae gan yr Awdurdod ystad neu fuddiant ynddo. Pam fod angen y pŵer hwn?

Cwestiwn 24: Cyfeirir yn benodol at y Goron gan gynnwys Comisiwn y Senedd yn adran 84(7) o'r Bil. Pam fod angen y ddarpariaeth hon?

Cwestiwn 25: Mae paragraff 3(g) o Atodlen 1 i'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddeiliaid swyddi, aelodau ac aelodau o staff cyrff sydd i'w hanghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Awdurdod. Pam na chafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys ar wyneb y Bil i roi eglurder, o ystyried bod personau anghymwys eraill wedi'u rhestru ym mharagraff 3(a) i (f)?

Cwestiwn 26: Mae paragraff 19(1) o Atodlen 1 yn cynnwys pŵer Harri VIII i ddiwygio cyfnod cynllunio'r Awdurdod. Pam ydych chi'n ystyried bod y pŵer hwn yn angenrheidiol?

Cwestiwn 27: Sut yr ymdrinnir ag awgrymiadau trawsffiniol o dan y Bil?

**Cwestiwn 28:** Yn eich barn chi, a fydd angen deddfwriaeth bellach yn y dyfodol agos mewn meysydd eraill o'r gyfraith i gynnwys y ddarpariaeth a wneir gan y Bil? Er enghraifft, newidiadau i ddeddfwriaeth cynllunio neu amgylcheddol i gynorthwyo gyda gweithredu'r Bil?

**Cwestiwn 29:** Beth fyddai'r amserlenni ar gyfer paratoi a chyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig y cyfeirir ati yng nghwestiwn 28?

**Cwestiwn 30**: Mae adran 87 yn darparu y bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym ar 1 Ebrill 2027. Pam y bydd cymaint o oedi rhwng y Cydsyniad Brenhinol a'r darpariaethau perthnasol yn dod i rym?

**Cwestiwn 31**: A oes perygl y bydd yr oedi hwnnw wrth gychwyn darpariaethau'r Bil, yn arwain at risg y bydd yr amddiffyniadau a gynigir gan ddarpariaethau'r Bil yn cael eu gohirio, neu na fyddant yn cael eu dwyn i rym yn llawn gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol?

**Cwestiwn 32**: Os bydd y Bil yn cael ei basio a'i ddeddfu, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd holl ddarpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig mewn grym yn llawn?

Ministry of Justice

**Lord Timpson**
Minister of State for Justice

Jenny Rathbone MS
Chair of the Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** SUB121841

25 February 2024

Dear Jenny,

**INVITATION FOR JOINT MINISTERIAL SESSION ON CRIMINAL JUSTICE**

Thank you for your letter of 23 December inviting me to a joint-ministerial general scrutiny session on criminal justice.

I would be delighted to visit the Senedd to attend a session with the Equality and Social Justice Committee to discuss a range of Welsh justice challenges, including some of the specific matters referred to in your letter. However, I do not feel it would be appropriate for such a session to scrutinise, jointly with Welsh Government ministers, the criminal justice system in Wales.

I would like to propose instead, if you would find it helpful, that I attend a session focussed on matters within my ministerial responsibilities for prisons and probation, alongside officials from the Ministry of Justice and His Majesty's Prisons and Probation Service. I would be happy to consider a suggested agenda of the items you would like such a session to cover.

I am copying this letter to the Counsel General; the Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip; to the Chairs of the Senedd's Legislation, Justice and Constitution Committee and Health and Social Care Committee; and also to the Chair of the Welsh Affairs Committee in the House of Commons.

Yours sincerely

**Lord Timpson**
**Minister for Prisons, Probation and Reducing Reoffending**

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice
Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt MS
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd
and Chief Whip, Welsh Government

Julie James MS
Counsel General, Welsh Government

Lord Timpson OBE
Minister of State, Ministry of Justice

23 December 2024

Dear Ministers,

Invitation for joint-ministerial general scrutiny session on criminal justice

Prisons and criminal justice have featured in several major pieces of work undertaken by the Equality and Social Justice Committee to date. They include our inquiry into **Women's experiences of the criminal justice system**; our work on **Speech, language, and communications needs (SLCN)** in the youth justice system; and it emerged as an important aspect of the **inquiry into the Anti-Racist Wales Action Plan (ArWAP).**

The recently published Wales Prison Factfile report by Dr Robert Jones at the Wales Governance Centre highlights critical issues and challenges within the prisons and criminal justice system. They include problems with the overall conditions within prisons, disproportionality in rates of incarceration, overcrowding and difficulties accessing services.

In response to concerns about the state of the wider criminal justice system, we would like to propose a joint-ministerial scrutiny session involving both Welsh and UK governments. As such we would like to invite you as the ministers with responsibilities in these areas to appear together to discuss further. We would like to extend an invitation to you as the Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip, Jane Hutt MS; the Counsel General, Julie James MS; and the Minister of State at the Ministry of Justice, Lord Timpson OBE. We would be willing to consider the involvement of other ministers if a clear rationale for doing so is forthcoming.

In our view, the seriousness of the situation demands the urgent attention of both governments, and your participation would greatly contribute to a constructive dialogue aimed at improving the criminal justice system in Wales.

Please let us know your availability for a meeting at your earliest convenience. The Committee's meeting slots are on Mondays during term time and currently we are keeping space free for a session on either the 10 February, 17 February, or 19 May 2025. We are willing to be flexible with start times to accommodate your schedules and would envisage the session lasting an hour and thirty minutes to two hours maximum. We are currently seeking your agreement to take part in principle; however, we would consider providing a more detailed steer of potential areas that we would like the session to cover in due course.

Thank you for considering this invitation. We look forward to your positive response and to working together to address these important issues.

I am copying this letter to the Chairs of the Welsh Parliament's Legislation, Justice and Constitution Committee and Health and Social Care Committee and to the Chair of the Welsh Affairs Committee in Westminster. To ensure a joined-up approach we will be inviting all three committees to consider the extent of their involvement in these sessions in the interim.

Yours sincerely,



Jenny Rathbone MS

Chair of the Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Chwefror 2025

Annwyl Mike

**Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'ch staff cefnogol, am ystyried y Bil. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid a'r personau eraill â budd yn y mater am eu hamser yn helpu i ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno, ac i'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r Senedd yn ystod Cyfnod 1.

Rwy'n falch o weld fod y cynigion yn y Bil yn cael eu croesawu a bod y Pwyllgor yn credu y bydd tri phrif ddiben y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylai'r Senedd gytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd os yw'r Bil hwn yn mynd yn ei flaen.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud saith argymhelliad i'r Llywodraeth, ac mae'r llythyr hwn yn rhoi fy ymateb iddynt.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r Bil, os daw'n ddeddf, hanner ffordd drwy'r Seithfed Senedd, ac o ganlyniad, dylai ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o'r fath.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cyfrwng i ddiwygio deddfwriaeth arall yw'r Bil hwn. Mae'n diddymu darpariaethau mewn deddfiadau eraill nad ydynt o unrhyw ddefnydd na budd ymarferol mwyach. Mae'n gwneud mân ddiwygiadau i ddarpariaethau presennol Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Wrth gwrs, mae hefyd yn gwneud diwygiadau mwy arwyddocaol i Ddeddf 2019 gan gynnwys

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

codeiddio a moderneiddio trefniadau gweithdrefnol a dulliau cyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Unwaith y bydd y newidiadau hynny mewn grym, bydd y Bil (neu'r Ddeddf fel y bydd erbyn hynny) wedi cyflawni ei phwrpas. Ni fydd unrhyw beth ar ôl i'w adolygu. Nid yw'r Llywodraeth, felly, yn cefnogi adolygiad o'r Bil hwn ei hun.

Serch hynny, rydym yn gweld gwerth mewn deall a yw Rhan 2A o Ddeddf 2019 (yn enwedig) yn gweithio fel rydym i gyd yn ei ddisgwyl, gan gynnwys y ffordd y mae'r Atodlenni 1A, 1B ac 1C newydd yn gweithredu. Rydym hefyd yn nodi argymhellion 5 a 6 o adroddiad y Pwyllgor a chan ddibynnu a yw'r Pwyllgor Busnes yn derbyn y rhain ai peidio, a pha bryd y cânt eu hystyried, mae'n bosib y bydd Senedd a Llywodraeth ddilynol o'r farn y bydd angen newid deddfwriaethol pellach.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Ddeddf ar ddehongli a gweithredu deddfwriaeth eisoes wedi bod yn destun amryw o ddiwygiadau, a bydd y Bil yn effeithio'n helaeth ar hynny ymhellach. Mae'n bosib y bydd Llywodraeth ddilynol o'r farn y byddai cydgrynhoi Deddf 2019 yn brosiect priodol, os yw'r adnodd ar gael, mewn rhaglen bellach i wella hygyrchedd y gyfraith.

Felly, yn hytrach nag ymrwymo Llywodraeth sydd eto i ddod i adolygu Deddf na fydd iddi unrhyw werth ymarferol ar ôl iddi wneud y diwygiadau a nodir, efallai y bydd y Llywodraeth a'r Senedd nesaf am ystyried a fyddai adolygiad o Ran 2A o Ddeddf 2019 yn ddefnyddiol fel rhan o unrhyw ystyriaeth o ddiwygio deddfwriaethol pellach.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud offerynnau mewn modd amserol i gywiro offerynnau statudol y mae'n derbyn eu bod yn ddiffygiol, ac mewn ymateb i'r Pwyllgor, dylai nodi manylion a chanlyniad yr ystyriaeth honno.**

Ymateb: Gwrthod

Mae'r Llywodraeth yn gwbl ymroddedig i sicrhau bod deddfwriaeth yn hawdd ei deall ac yn sicr ei heffaith. Ond mae yna adegau pan fydd camgymeriadau yn digwydd mewn deddfwriaeth sylfaenol ac mewn is-ddeddfwriaeth. Pryd bynnag a sut bynnag y caiff y rhain eu nodi, bydd y Llywodraeth yn mynd ati i ystyried natur y camgymeriad a'i effaith debygol. Ambell dro gellir ei adael, a thro arall (a chan ddibynnu a yw'r ddeddfwriaeth wedi ei gwneud ai peidio) efallai y bydd slip cywiro yn ffordd briodol o ddelio â'r mater neu efallai y bydd angen diwygio.

O ran offerynnau statudol[1] sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru:

- pan fydd slip cywiro i'w gyhoeddi i gywiro camgymeriad, mater i'r Cofrestrydd OSau yw gwneud hynny ac fel y gŵyr y Pwyllgor, bydd y Cofrestrydd OSau yn gwneud hynny pan fydd amser yn caniatáu.

- pan fydd diwygiad i'w wneud, rhaid penderfynu ar y dull cywiro mwyaf priodol ac effeithiol. Mae prydlondeb yn un ffactor, ond mae angen ystyried amryw o faterion eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y goblygiadau o ran adnoddau, gan gynnwys cost llunio offerynnau diwygio unigol, neu os oes newidiadau eraill yn cael eu hystyried, a fyddai hi'n fwy addas cynnwys y diwygiad gyda'r rheini.

[1] gan gydnabod mai un ffordd o wneud is-ddeddfwriaeth yw hyn

O ran offerynnau statudol eraill sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd, efallai nad ydynt yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unig (offerynnau ar y cyd, er enghraifft) neu efallai eu bod yn cael eu gwneud gan Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

O ystyried yr amrywiadau helaeth hyn nid yw'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol (naill ai yn y Bil hwn neu drwy ddulliau deddfwriaethol eraill) i ragnodi amserlen neu i osod dyletswydd gyffredinol i ddiwygio camgymeriad mewn deddfwriaeth sylfaenol neu mewn is-ddeddfwriaeth "mewn modd amserol".

Serch hynny, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor unwaith eto fy mod yn cydnabod y pryderon sylfaenol sydd wedi arwain at yr argymhelliad hwn, ac fe fydd y Pwyllgor yn ymwybodol fy mod yn cymryd camau i ddelio â'r ymrwymiadau sydd eto i'w cyflawni.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru, bob 12 mis, osod adroddiad gerbron y Senedd yn nodi'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gywiro offerynnau statudol y mae'n derbyn eu bod yn ddiffygiol.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Llywodraeth yn ymateb i bob adroddiad gan y Pwyllgor, gan nodi ei barn ar y pwyntiau sy'n codi pan ofynnir iddi wneud hynny. Bydd yr adroddiadau hynny yn cynnwys amserlen ddangosol ar gyfer unrhyw gywiriadau y cytunir arnynt, os oes modd rhoi'r wybodaeth honno ar y pryd. Efallai na fydd modd gwneud hyn bob tro, megis os nad oes yna eisoes fwriad i gyflwyno offeryn pellach. Pan gaiff offeryn sy'n gwneud cywiriadau (ymysg materion eraill) ei osod, dylai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r offeryn egluro hynny. Mae'r Llywodraeth yn fodlon, felly, fod y Senedd yn derbyn gwybodaeth amserol am gywiro offerynnau statudol.

Rwyf wedi sôn wrth y Pwyllgor am yr "offeryn diwygio omnibws" y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflwyno cyn toriad yr haf, i ymdrin â rhai camgymeriadau mewn offerynnau statudol. Byddaf yn ysgrifennu atoch cyn hir i roi rhagor o fanylion am yr hyn y mae disgwyl i'r offeryn ei gynnwys.

Unwaith y mae'r offeryn hwnnw wedi ei wneud, byddaf yn ystyried a yw'n ddull effeithiol ac effeithlon o ymateb i gywiriadau os nad oes dull arall o'u gwneud ar unwaith. Mae'n bosib y bydd y Llywodraeth yn mabwysiadu'r dull hwn o bryd i'w gilydd er mwyn osgoi bod camgymeriadau y credwn fod angen eu cywiro yn parhau heb unrhyw amserlen glir i'w datrys. Fodd bynnag, nes inni orffen ystyried hynny, nid oes modd dweud a fydd offerynnau omnibws pellach yn ddefnyddiol.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r adroddiad blynyddol ar hynt y rhaglen i wella hygyrchedd y gyfraith i adrodd am unrhyw ddatblygiadau o bwys mewn perthynas â chywiro offerynnau statudol.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru yn adlewyrchu'r trefniadau a nodir yn Neddf yr Alban 1998 a Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010, lle y mae Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban yn bodoli fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r Pwyllgor wedi gwrando ar dystiolaeth ar y mater hwn gan y Llywodraeth a chan Argraffydd y Brenin a'i dîm, fel y mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi. Mae'r Llywodraeth

hefyd wedi egluro mai bwriad y rhannau 2A a 2B newydd yw codeiddio a moderneiddio'r trefniadau deddfu presennol i adlewyrchu realiti datganoli ac arferion y dydd.

Pan gyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yna Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni wnaeth ddarpariaeth ar gyfer "Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru". Nid yw'r Breinlythyrau ar gyfer penodi Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin wedi eu newid ychwaith i adlewyrchu "deddfwriaeth Cymru". Yn ymarferol, nid yw hyn wedi effeithio ar y modd y cyhoeddir offerynnau statudol, Mesurau, na Deddfau Senedd Cymru bellach. Mae trefniadau cyfansoddiadol yr Alban (ac yn wir, Gogledd Iwerddon) yn rhagflaenu'r trefniadau datganoli a gyflwynwyd ar gyfer Cymru a'r Alban ym 1998/1999, ac felly dim ond adlewyrchu'r trefniadau hynny o ran cyhoeddi deddfwriaeth a wnaeth Deddfau 1998 Cymru a'r Alban.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth eglur gan Argraffydd y Brenin a Chyfarwyddwr Digidol yr Archifau Gwladol nad oes unrhyw wahaniaethau ymarferol, o ran y broses o gyhoeddi deddfwriaeth na'r ffordd y mae defnyddwyr yn cyrchu deddfwriaeth, rhwng trefniadau'r Alban a'r trefniadau ar gyfer Cymru sy'n cael eu codeiddio yn awr. Fel y dyfynnir ym mharagraff 138 o adroddiad y Pwyllgor, *"the practical arrangements are equivalent"*.

Rwy'n fodlon, felly, fod y Bil yn mabwysiadu'r dull cywir.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad o unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o adlewyrchu'r trefniadau a nodir yn Neddf yr Alban 1998 a Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010, lle y mae Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban yn bodoli fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.**

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'r Llywodraeth nac Argraffydd y Brenin (na'r Archifau Gwladol) o'r farn bod angen i'r trefniadau yn y Bil "adlewyrchu" trefniadau'r Alban. O ganlyniad, ni fydd y Llywodraeth yn mynd ati i ddatblygu gwerthusiad ariannol o fodel nad yw'n cael ei ddatblygu.

**Argymhelliad 9: Dylid diwygio'r Bil i roi "Clerc y Senedd" yn lle'r cyfeiriadau at "Clerc Senedd Cymru", yn unol ag adran 26(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.**

Ymateb: Derbyn

Er nad ydym o'r farn bod angen y newidiadau hyn, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i'r Pwyllgor cyfrifol eu hystyried yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa asesiad y mae wedi'i wneud o effaith ei phenderfyniad arfaethedig i symud i ffwrdd o'r fformat dwy golofn ar gyfer offerynnau statudol Cymreig ar y Gymraeg; a dylai gadarnhau a yw wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar y cynnig hwn.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd y Pwyllgor yn cofio llythyr fy rhagflaenydd at y Llywydd a oedd yn nodi rhai o'r newidiadau rydym yn eu hystyried o ran fformat a gwedd deddfwriaeth Gymreig. Gwella hygyrchedd deddfwriaeth, yn y ddwy iaith, yw'r man cychwyn, heb anfantais i'r naill iaith na'r llall. Hoffwn atgoffa'r Pwyllgor hefyd fod y Llywodraeth hon yn cymryd camau rhagweithiol i ehangu'r Gymraeg fel iaith y gyfraith.

Bydd y Llywodraeth yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â fformat a gwedd offerynnau statudol Cymreig drwy drafod â'r cyhoeddwr deddfwriaeth; yn yr achos hwn mae hynny'n golygu'r Tîm Deddfwriaeth yn yr Archifau Gwladol (sy'n adrodd i Argraffydd y Brenin) a fydd hefyd yn gweithio gyda'r consesiynydd cyhoeddi (Y Llyfrfa ar hyn o bryd) ar y newidiadau hyn.

Er bod y Llywodraeth yn ffafrio disodli'r fformat dwy golofn â fformat sy'n fwy tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer Deddfau Senedd Cymru[2] ar hyn o bryd (h.y. testun Cymraeg a Saesneg bob yn ail dudalen), rydym yn awyddus i ystyried cipolygon i'r ffordd y mae defnyddwyr yn cyrchu deddfwriaeth (a deddfwriaeth ddwyieithog yn arbennig) a'u hanghenion. Cyn hir, felly, byddwn yn trafod â'r Archifau Gwladol eu hymchwil defnyddwyr ddiweddar a'r hyn y gall ei ddweud wrthym am ymddygiad defnyddwyr. Mae'n bosibl y bydd y profiad o'r ffordd y mae defnyddwyr yn cyrchu fersiynau pdf o Ddeddfau yn arbennig o ddefnyddiol, o ystyried bod testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth sylfaenol ddwyieithog yn ymddangos bob yn ail dudalen. Byddwn yn ystyried goblygiadau'r casgliadau hynny ac yn rhoi diweddariad i'r Senedd ar y camau nesaf tebygol a'r amserlen debygol (os yw'n hysbys).

Nes inni gael y trafodaethau hynny am y camau nesaf gyda'r Archifau Gwladol, yr unig asesiad ffurfiol o effaith a gynhaliwyd hyd yma yw deall y costau cysodi. Fel y nodir ym mharagraff 96 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil, codir ffioedd ar Lywodraethau ac adrannau'r DU o dan y contract gwasanaethau cyhoeddi a ddyfernir gan yr Archifau Gwladol ar ran Argraffydd y Brenin. Roedd tystiolaeth y Llywodraeth i'r Pwyllgor ar y Bil hwn yn cynnwys esboniad o'r costau uwch y mae Llywodraeth Cymru yn eu talu oherwydd y costau cysodi sy'n gysylltiedig â chyhoeddi 'offerynnau statudol Cymru' ar hyn o bryd - gweler hefyd baragraffau 124 i 127 o'r Memorandwm Esboniadol.

Nid ydym o'r farn fod angen inni ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar y mater hwn, ond fel mater o arfer da byddem bob amser yn croesawu barn y Comisiynydd ac eraill ar foderneiddio dulliau cyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Ac os hoffai Aelodau'r Pwyllgor rannu unrhyw syniadau ynglŷn â fformat offerynnau statudol ac is-ddeddfwriaeth arall, byddwn yn falch o sicrhau bod y swyddogion perthnasol ar gael.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

[2] Crybwyllir ym mharagraff 127 o'r Memorandwm Esboniadol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Cynigiais ysgrifennu i ymateb i gwestiwn a godwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Ionawr 2025.

Gofynnodd yr Aelod o'r Senedd o Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr y cwestiwn canlynol: pe bai aelod o'r cyhoedd neu awdurdod lleol yn dymuno rhoi gwybod am lety i ymwelwyr sydd, yn ôl yr wybodaeth sydd ganddo, heb ei gofrestru, beth fyddai trefniadau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer rheoli hysbysiadau o'r fath, ac a yw Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu amlinellu'r trefniadau perthnasol, neu restru'r pwerau sydd eu hangen, ar wyneb y Bil?

Bydd y system ar gyfer casglu gwybodaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r gofrestr genedlaethol o lety ymwelwyr yn rhan o ddatblygu'r gofrestr yn y dyfodol. Nid oes angen pwerau ar wyneb y Bil i hwyluso hyn.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon